

## GISDA DROS GYMRU

Mae GISDA, elusen sydd yn darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc yng Ngwynedd, wedi bod yn cystadlu yn nhwrnamaint pêl droed 'Street Football Wales'

Prosiect cynhwysiad cymdeithasol sy'n rhedeg ledled Cymru yw 'Street Football Wales.' Mae'n cynnwys timau o bobl ifanc sydd yn wynebu bob math o rwystrau o fod yn ddigartref, cam-drin sylweddau, afiechyd meddwl neu faterion diwylliannol. Mae'r bobl ifanc yn wynebu rhwystrau dyddiol i fod yn rhan o'r gymdeithas maent yn byw ynddo oherwydd y stigma ynghlwm a'i sefyllfaoedd.

Mae tîm GISDA sydd yn cynnwys nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth, wedi bod yn mynd o amgylch Cymru yn chwarae pel-droed mewn sawl twrnamaint. Un aelod o'r tîm yma oedd Kelsey Jones - cyn defnyddiwr gwasanaeth ac ar y pryd yn gweithio i GISDA fel Mentor Cyfoed.

Ar y 26<sup>ain</sup> o Fai aeth Kelsey a dau ddefnyddiwr gwasanaeth arall i Gasnewydd i dreialon tîm Cymru 'Street Football Wales' gyda chydlynnydd prosiect awyr agored Harri Morris. Ar ôl diwrnod llwyddiannus iawn yn yr haul, roedd Kelsey wedi dod i'r brig ac wedi cael ei dewis fel aelod o dim merched 'Street Football Wales' Cymru. Bydd hi rŵan yn mynd i hyfforddi efo'r tîm yng Nghasnewydd ac yn mynd Wlad Pwyl ym mis Awst i gystadlu yng nghwpan y byd pel-droed y stryd i ferched.

Dyweddodd Kelsey "Rwyf yn falch iawn o gael fy newis i gynrychioli Cymru. Alla i ddim aros i ddechrau arni gyda'r hyfforddiant ac yna mynd i Poznan, Gwlad Pwyl ym mis Awst. Rwy'n teimlo'n falch o gael fy newis allan o nifer o chwaraewyr a oedd yno ar y diwrnod dethol yng Nghasnewydd, a hefyd yr unig ferch o Ogledd Cymru.

Byddaf yn chwarae yn erbyn 16 o dimau eraill o amgylch y byd fydd yn cynnwys Brasil, Bwlgaria, Chile, Colombia, Denmarc, Lloegr, Haiti, Hwngari, Kyrgyz Republic, Mecsico, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Sweden, Uganda, UDA a Chymru. Gallaf ddweud fy mod yn chwarae dros Gymru yn y Cwpan Byd Merched Digartref cyntaf erioed. Nid wyf wedi stopio gwenu ers Keri Harris, Rheolwr y tîm alw arna i wythnos diwethaf"

Dyweddodd Harri (Gweithiwr Prosiect Awyr Agored) "Rwy'n falch iawn bod tri o dîm pêl-droed GISDA wedi eu dewis ar gyfer y broses ddethol ac yn bersonol rwy'n credu ei fod yn glod i'r tîm i gael ei gydnabod gan staff SFW. Roeddwn yn falch iawn gyda thechnegau hyfforddi 'Street football Wales' a safon uchel bob un, roedd yn rhyfeddol. Rwyf wrth fy modd y bydd un o aelodau'r tîm yn cael y cyfle i gynrychioli GISDA a Chymru yn gyffredinol, a bydd mwy o



gyfleoedd fel hyn i bobl ifanc GISDA yn y dyfodol agos. Yr wyf yn dymuno Kelsey y gorau ar ei antur mawr yn Poznan "

Mae hyn yn brofiad ardderchog i Kelsey a dymunwn bob hwyl iddi.